William Wilberforce 1759–1833

Diddymydd caethwasiaeth a diwygiwr cymdeithasol

Ganwyd William Wilberforce ar 24 Awst 1759 i deulu o fasnachwyr cefnog yn ninas Hull. Fel plentyn roedd yn fachgen bychan eithriadol o eiddil a phan dyfodd yn ddyn nid oedd ond 5 3" ac yn pwyso 76 pwys, sef pum stôn a hanner. Ef oedd y trydydd o bedwar plentyn i Robert ac Elizabeth. Bu farw ei dad yn ddeugain oed ac yn fuan wedyn aeth ei fam yn sâl. Anfonwyd William Wilberforce, ac yntau yn ddeg oed, at ei ewythr a'i fodryb, William a Hannah, yn Wimbledon, Llundain. Aeth i Ysgol Breswyl Putney. Roedd William Wilberforce wrth ei fodd gyda'i fodryb a'i ewythr ac fe gawsant ddylanwad mawr arno yn ysbrydol. Roeddent yn gyfeillion agos i George Whitefield a John Newton, pregethwr tanbaid ac awdur 'Amazing grace'. Nid oedd ei fam na'i daid yn fodlon ei fod yn dod o dan ddylanwad y Methodistiaid ac felly bu'n rhaid iddo ddychwelyd i Hull. Yno aeth i Ysgol Pocklington, lle y bu am bum mlynedd. Ceisiodd gadw at y ffydd a gafodd yn Llundain ond roedd ei deulu yn wrthwynebus. Gwaharddwyd ef rhag mynd i'r eglwys a cheisiwyd ei drwytho yn arferion teuluoedd bonheddig y cyfnod trwy fynychu ciniawau, partïon, y theatr a dawnsfeydd.

Yn Hydref 1776 aeth i Goleg St Ioan, Caergrawnt, ac yntau yn 17 oed. Fel llawer un, yn y fan honno fe gafodd dipyn o sioc, yn enwedig gydag ymddygiad ei gyd-fyfyrwyr. Yng Nghaergrawnt daeth yn ffrindiau mawr gyda William Pitt, mab hynod y prif weinidog William Pitt yr Hynaf.

Ym 1779–80 treuliodd William Wilberforce lawer o amser yn Llundain. Ymwelai'n gyson â Thŷ'r Cyffredin gan wylio'r trafodaethau yno. Dyma pryd y cafodd flas ar wleidyddiaeth. Yng ngwanwyn 1780 penderfynodd geisio cael ei ethol yn Aelod Seneddol a'r mis Medi dilynol derbyniodd 1,126 o bleidleisiau ac fe'i hetholwyd yn Aelod Seneddol. Tawel oedd ei ddyddiau cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin. Yn Hydref 1784 treuliodd y gaeaf ar Riviera Ffrainc a'r Eidal. Treuliodd lawer o amser yng nghwmni'r Cristion Isaac Milner, cymeriad mawr a feddai ar ddeallusrwydd anghyffredin. Bu'r ddau yn trafod Cristnogaeth a daliadau'r Methodistiaid. Yn fuan wedyn daeth i adnabyddiaeth o'r Arglwydd Iesu, yn raddol fel Awstin Sant. Trwy gydol ei oes, galwai ef y profiad a gafodd fel 'The

Great Change'. Wedi iddo ddychwelyd adref, darllenai'r Beibl yn ddyddiol a thrafodai faterion ffydd ond ni allai gael tawelwch meddwl hyd nes iddo gyfarfod â John Newton. Pregethwr Efengylaidd llwyddiannus yn Llundain oedd ef ac un o gonglfeini Methodistiaeth. Daeth William Wilberforce trwy fwlch yr argyhoeddiad ac anogodd John Newton ef i aros fel Aelod Seneddol ac i fod yn halen y ddaear yn y fan honno. Newidiodd hyn ei agwedd yn fawr iawn. Priododd Barbara Spooner, merch i fancwr cefnog o Birmingham, ym mis Mai 1797 ac fe gawsant chwech o blant. Symudasant i fyw yn Broomfield Lodge, Clapham, Llundain, lle y buont am ddeng mlynedd. Yma yr oedd cylch o Gristnogion pybyr yn byw a rhoddwyd yr enw Sect Clapham arnynt.

Ym 1787 penderfynodd William Wilberforce y byddai'n ymgyrchu gydag eraill i ddileu caethwasiaeth. Un o hunllefau mwyaf hanes dynoliaeth yw caethwasiaeth. Mae caethwasiaeth yn hen arfer sy'n ymestyn yn ôl i ddechrau dynoliaeth. Cynyddodd y fasnach yn fawr wedi i'r Ewropeaid ddarganfod America. Daeth y rhan fwyaf o gaethion America o Orllewin Affrica. Fel arfer cipiwyd gwrywod rhwng 15 a 35 oed. Er hynny, roedd rhai plant yn cael eu cipio ond gadewid pobl hŷn ar ôl. Rhwng 1450 a 1850 credir bod rhwng 12 a 20 miliwn o bobl wedi eu cludo o Affrica i Ogledd America, De America ac India'r Gorllewin. Bu farw rhyw filiwn ohonynt yn ystod y fordaith. Cyflwynodd Wilberforce ei fesur cyntaf i'r senedd ym 1787 a phob blwyddyn wedi hynny hyd 1807. Gweithiodd yn ddiflino gydag eraill i dynnu sylw at greulondeb caethwasiaeth ac at y dioddefaint enfawr a wynebai'r caethion, yn enwedig ar y llongau. Yr hyn oedd yn ei ysbrydoli oedd y gred fod pob person dynol yn gyfartal gerbron Duw ac wedi eu creu ar Ei lun ac ar Ei ddelw. Er iddo gael ei fygwth a'i ddilorni gan fasnachwyr caethion, ei enllibio a'i siomi gan wleidyddion, ni allai dim ladd ei ysbryd.

Ar 25 Mawrth 1807 gwnaed y Mesur Diddymu Masnach Caethion yn Ddeddf Seneddol o 283 pleidlais i 16. Roedd y ddeddf hon yn gam pwysig tuag at ddiddymu caethwasiaeth ym Mhrydain a ddigwyddodd ym 1833. Bu William Wilberforce farw ar 29 Gorffennaf 1833 a rhoddwyd ei gorff i orffwys yng nghroesfa ogleddol Abaty Westminster. Flwyddyn yn ddiweddarach, am hanner nos ar 31 Gorffennaf 1834 rhyddhawyd 800,000 o gaethion. Yr oedd hwn yn un o ddigwyddiadau harddaf dynoliaeth.